# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: asesiad effaith integredig (Mai 2023)

## Cyd-destun

Yr Asesiad Effaith Integredig hwn yw'r cyntaf mewn cyfres sydd wedi'i chynllunio i gefnogi rhyngweithio cynnar cyn ymgynghoriad ffurfiol a llawn ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol arfaethedig 2024-28 a'r Amcanion. Ar ôl yr Ymgynghoriad, cynhelir ail Asesiad Effaith Integredig a fydd yn myfyrio ar yr ymatebion a dderbyniwyd ac unrhyw newidiadau a wnaed i fformat Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 cyn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w ystyried a'i gymeradwyo, a all gynnwys Amcanion a Camau Gweithredu ategol ychwanegol neu beidio.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i gyhoeddi ac adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb bob pedair blynedd. Cyhoeddwyd ein set gyntaf o Amcanion Cydraddoldeb yn 2012. Cafodd y rhain eu hadolygu a'u hadnewyddu i'w cyhoeddi yn 2016, gyda'r set bresennol o Amcanion Cydraddoldeb yn cael eu cyhoeddi ar 2 Ebrill 2020.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ymwneud ag adolygu ac adnewyddu ein Hamcanion Cydraddoldeb a symud i fath newydd o Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 – 2028.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu oherwydd:

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Gelwir y categorïau hyn yn 'Nodweddion Gwarchodedig'.

Ers cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-24, cyhoeddwyd sawl cynllun cydraddoldeb gwahanol sy'n canolbwyntio ar Nodweddion Gwarchodedig unigol, pob un â'i set ddiffiniedig ei hun o gamau gweithredu.

- Gweithredu ar anabledd: hawl i fyw'n annibynnol – fframwaith a chynllun gweithredu
- Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LHDTC+

Gan fod cynlluniau gwahanol yn bodoli ar gyfer nifer o'r Nodweddion Gwarchodedig, gyda pholisïau gwahanol sy'n cwmpasu'r holl Nodweddion Gwarchodedig, cynigir y bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-28 yn mabwysiadu dull croestoriadol sy'n canolbwyntio ar: creu cysylltiadau ar draws y cynlluniau hynny a pholisïau cydraddoldeb; prif ffrydio cydraddoldeb; a gweithredu polisi i fynd i'r afael â bylchau gweithredu systemig canfyddedig rhwng dylunio a chyflawni camau gweithredu (a dangos sut mae'r camau hyn yn effeithio ar unigolion).

Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn helpu i hoelio sylw ar yr holl faterion cydraddoldeb a hyrwyddo dealltwriaeth o sut mae pob un yn croestorri, gyda'r nod o ddarparu polisïau gwell a darparu gwasanaethau gwell, gan gynnwys dyrannu adnoddau.

Bydd Amcanion Cydraddoldeb arfaethedig Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 hefyd yn parhau i gyflawni canlyniadau sy'n wirioneddol bwysig ac sy'n mynd at wraidd cydraddoldeb, gwrthwahaniaethu a chysylltiadau da rhwng pobl yng Nghymru.

Mae gan bob un o'r cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol (a restrir uchod) eu set eu hunain o Amcanion a Chamau Gweithredu lle mae'r dystiolaeth ddatblygiadol yn dweud wrthym fod gweithredu wedi'i dargedu wedi cael ei nodi. Mae ganddyn nhw Asesiadau Effaith Integredig ar wahân. Dadansoddwyd cyfoeth o dystiolaeth gan arweinwyr polisi, gan gynnwys yr hyn a ddarparwyd gan adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Cymru'n Decach? (2018).

Ar hyn o bryd cynigir, cyn ymgynghori, bod Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn cael eu cyfyngu i ddim mwy na thri. Mae'n bosibl y bydd hyn yn esblygu

a/neu'n newid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Byddai'r rhain yn gorwedd ochr yn ochr â'r cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig unigol a'r cynlluniau polisi penodol ar gyfer pob maes cydraddoldeb a gellir eu cymhwyso i fwy nag un maes Nodwedd Warchodedig. Y rhain yw:

**Prif Ffrydio Cydraddoldeb wrth Ddylunio a Darparu Ymyriadau a Datblygu Polisi Llywodraeth Cymru** – cyflwyno Prif Ffrydio Cydraddoldeb ar draws y sefydliad ar ddechrau'r broses datblygu polisi; a defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel elfen ofynnol o Asesiad Effaith Integredig i'w chyhoeddi (Nid yw'n ofyniad ar hyn o bryd i gyhoeddi'r elfen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb). Bydd dealltwriaeth ac ystyriaeth o gydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cryfhau a'u gwneud yn fwy ystyrlon;

**Sicrhau Dull Croestoriadol o Ddatblygu Polisïau a'u Rhoi ar Waith**– Dylai'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ddarparu fframwaith i gefnogi llunwyr polisi i nodi themâu sy'n croestorri ar draws Nodweddion Gwarchodedig o fewn y cynlluniau gwahanol presennol. Bydd angen i brosesau datblygu polisi o fewn ac ar draws Grwpiau Llywodraeth Cymru ddangos sut mae ymyriadau yn cefnogi'r groestoriad hwn ar draws meysydd Nodwedd Warchodedig niferus; a

**Ymdrin â'r Bwlch rhwng Bwriad a Chyflawni** – Dangos gweithredu a chyflawni camau gweithredu: y gallu effeithiol i ddangos sut mae'r ymyriad yn cael ei adlewyrchu'n glir mewn prosesau a chamau gweithredu, a gwell mynediad, cyfranogiad, cynhwysiant ac ansawdd bywyd i'r defnyddiwr terfynol (dyma Ganlyniad arfaethedig pob un o'r tri Amcan).

Oni bai bod camau pellach i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl yng Nghymru, gallai'r anfanteision hyn ymwreiddio, gan achosi effeithiau ar genedlaethau i ddod.

**Ymgysylltu ac Ymgynghori**

**Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol ar ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28.**

Yn dilyn cymeradwyaeth i'r amcanion arfaethedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, bydd ymgysylltu a dylunio yn dechrau gyda

grwpiau mewnol ac allanol fforymau Cydraddoldeb a arweinir gan Lywodraeth Cymru **ochr yn ochr** â rhanddeiliaid eraill. Bydd hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu dogfen ymgynghori lawn sy'n nodi Amcanion Cydraddoldeb drafft Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 Llywodraeth Cymru.

Amcangyfrifir y bydd yr ymgynghoriad llawn hwn yn dechrau ym mis **Medi** 2023. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd y ddogfen ymgynghori yn cael ei chyhoeddi ar-lein i'r cyhoedd gael ei hystyried, i gasglu sylwadau, safbwyntiau ac awgrymiadau, a chynhelir gweithdai hefyd ledled Cymru. Bydd y gweithdai hyn yn cael eu harwain gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag aelodau o wahanol fforymau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, a bydd ystod eang o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd yn eu mynychu, gyda'r nod o weithio gyda'i gilydd ar addasrwydd, perthnasedd a chyflawnadwyedd y ddogfen er mwyn drafftio Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol 2024-28.

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad llawn yn cael eu dadansoddi a chyhoeddir Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28, ynghyd ag adroddiad cryno, i'w gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Gweinidogion, i'w osod gerbron y Senedd, a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r camau wedi'u crynhoi isod:

1. Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn cytuno ar yr Amcanion drafft cychwynnol;
2. Gweithdy ar groestoriadedd a'i ddiffiniad o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda fforymau rhanddeiliaid;
3. Rhannu amcanion gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn ystod cyfnod o fis;
4. Derbyn sylwadau ar yr Amcanion, eu dadansoddi a'u hystyried gan y tîm polisi – bydd hyn yn ffurfio'r ddogfen ymgynghori Cynllun Cydraddoldeb Strategol lawn gyhoeddus gychwynnol;
5. Dogfen ymgynghori lawn i'w chyflwyno i randdeiliaid drwy ymgynghoriad 12 wythnos:
    a. Ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft cychwynnol; ac ar yr un pryd
    b. Gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru

6. Mae'r ymgynghoriad yn cau, mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi, a rhennir Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft terfynol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol;
7. Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol yn cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, yn cael ei osod gerbron y Senedd a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru;
8. Dadansoddiad o berfformiad yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol yn cael ei fesur a'i gyhoeddi'n flynyddol.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020-24 (Cynllun Byw Cyfredol)**

Mae'r cynllun 2020-24 cyhoeddedig i'w weld yma: https://www.llyw.cymru/cynllun-nodau-cydraddoldeb-2020-i-2024. Er hwylustod i'r darllenydd, mae'r Nodau a'r Amcanion Cydraddoldeb cyhoeddedig wedi'u nodi isod:

**Nod Hirdymor 1: Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi.**

**Amcan Cydraddoldeb 1:** Byddwn yn cymryd camau i leihau'r risg o wynebu tlodi, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.

**Nod Hirdymor 2: Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru.**

**Amcan Cydraddoldeb 2:** Byddwn yn cymryd camau i nodi a defnyddio pob sbardun posibl i amddiffyn, atgyfnerthu a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

**Nod Hirdymor 3: Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.**

**Amcan Cydraddoldeb 3:** Byddwn yn cymryd camau yn seiliedig ar wella canlyniadau cyfartal a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu potensial. Byddwn yn ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd er mwyn creu polisïau a gwasanaethau gwell.

**Nod Hirdymor 4: Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Mae Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd yn golygu rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal rhwng pob menyw, dyn a pherson anneuaidd.**

**Amcan Cydraddoldeb 4:** Byddwn yn cyflawni'r amcanion a nodir yng ngham un y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'i leihau, gan annog sefydliadau cyhoeddus datganoledig eraill yng Nghymru i wneud yr un peth.

**Nod Hirdymor 5: Dileu gwahaniaethu, erledigaeth, difrïo, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar nodweddion gwarchodedig.**

**Amcan Cydraddoldeb 5:** Byddwn yn cymryd camau i atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddwch, difrïo, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pobl am fod ganddynt un neu ragor o nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael gafael ar gyngor a chymorth er mwyn eu helpu i fyw heb ofn a diogelu eu llesiant.

**Nod Hirdymor 6: Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gynhwysol.**

**Amcan Cydraddoldeb 6:** Byddwn yn adeiladu ar ein polisïau a'n hymyriadau presennol ac yn datblygu fframwaith monitro i fesur cynnydd tuag at gydlyniant cymunedol a meithrin cysylltiadau da.

**Nod Hirdymor 7: Gall pawb yng Nghymru gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol, bywyd cyhoeddus a bywyd pob dydd.**

**Amcan Cydraddoldeb 7:** Erbyn 2024, byddwn wedi cynyddu amrywiaeth y rheini sy'n gwneud penderfyniadau mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus, gan nodi meysydd lle mae angen cymryd rhagor o gamau gweithredu er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell o amrywiaeth ymysg y rheini sy'n gwneud penderfyniadau a nodi ac ymchwilio i ddulliau o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

**Nod Hirdymor 8: Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.**

**Amcan Cydraddoldeb 8:** Erbyn 2024 bydd Llywodraeth Cymru yn gyflogwr sy'n dangos esiampl, gan gynyddu amrywiaeth drwy: fynd i'r afael yn arbennig â thangynrychiolaeth pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig ar bob lefel o'r sefydliad, a thangynrychiolaeth merched ar lefelau uwch; dileu rhwystrau; a galluogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Mae'r Nodau ac Amcanion Cydraddoldeb Hirdymor a nodir uchod yn hoelio sylw ar faterion cydraddoldeb blaenoriaethol er mwyn cyflawni polisïau gwell a darparu gwasanaethau gwell, gan gynnwys dyrannu adnoddau.

Fel sy'n ofynnol yn y gyfraith, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol sy'n nodi pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u dwyn ymlaen i'w cyflawni yn erbyn y Nodau a'r Amcanion a nodir yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Gellir gweld a lawrlwytho'r rhain o'n gwefan fel isod, gyda fersiynau hygyrch ar gael ar gais. [Adroddiadau cydraddoldeb blynyddol Llywodraeth Cymru | LLYW. CYMRU]

**Pwrpas Cyffredinol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28**

Pwrpas datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 fydd adeiladu ar y cynnydd a wnaed o dan gynlluniau blaenorol. Rydym yn glir bod yr Amcanion arfaethedig yn ymwneud â chryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru; eu bod yn debygol o ymestyn y tu hwnt i oes cynllun 2024-28 (yn yr un modd ag Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024) ac y bydd angen cysylltiad rhwng Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a Chynlluniau Nodweddion Gwarchodedig (y presennol a'r dyfodol) a pholisi cydraddoldeb a fydd yn cael ei ddatblygu dros amser.

Yn ei gyfanrwydd, rydym yn glir yn ein gobaith y byddwn yn gallu cyflawni newid, y bydd angen iddo barhau i ddatblygu ac esblygu gyda newid strwythurol a newid mewn agwedd, ac wrth i'r Amcanion ac unrhyw Gamau Gweithredu ategol sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol a pholisïau cydraddoldeb yr ydym wedi cytuno arnynt gyda'n partneriaid ddechrau dwyn ffrwyth.

**Atal**

**Bydd pob un o'r Amcanion yn sbarduno camau ataliol ar draws ystod o feysydd polisi sy'n berthnasol i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Bydd Camau Gweithredu yn cael eu gwireddu drwy Gynlluniau Nodweddion Gwarchodedig ar wahân a gwahanol ac yn ymgorffori pob agwedd ar bolisi cydraddoldeb i bobl Cymru. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, gweithredu i fynd i'r afael â throseddau casineb, gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau, ac anghydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Bydd yr Amcanion yn gorwedd ochr yn ochr â'r**

**canlyniadau arfaethedig a fydd yn sbarduno datblygiad polisi ar draws Llywodraeth Cymru.**

**Cydweithio**

**Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd mabwysiadu ymagwedd gydweithredol wrth ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol.**

**Mae meysydd polisi cydraddoldeb yn gweithio gyda grwpiau rhanddeiliaid ac fel y nodwyd yn gynharach, rydym yn glir bod yr angen am gydweithio yn allweddol i ddatblygu gwaith ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 a chyflawni ein Hamcanion. Rydym yn bwriadu parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid a'n Rhanddeiliaid fel ffrindiau hanfodol i hysbysu, datblygu a chraffu ar sut rydym yn cyflawni i gyflawni'r newid yr ydym i gyd yn cydnabod bod ei angen arnom.**

**Bydd y gwaith cydweithredol hwn yn ystod yr ymgynghoriad a thrwy gydol oes Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn sicrhau ymhellach bod y Camau Gweithredu yn cael eu gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb strwythurol.**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys saith nod llesiant i wneud Cymru'n wlad lewyrchus, cydnerth, iachach, mwy cyfartal a chyfrifol ar lefel fyd-eang gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.**

**Bydd ein Hamcanion Arfaethedig ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn torri ar draws yr holl nodau llesiant, maent yn cefnogi cynnydd tuag at y canlynol:**

- **Cymru sy'n fwy cyfartal** - Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
- **Cymru o gymunedau cydlynus** - Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth wrth gymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd allweddol o weithio.**

- **Hirdymor: pwysigrwydd cydbwyso anghenion y tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.**
- **Atal: sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.**
- **Integreiddio: Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.**
- **Cydweithio: gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.**
- **Cynnwys: pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.**

**Mae'r pum ffordd hyn o weithio wedi arwain ein gwaith wrth ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb a'r Camau Gweithredu i'w dwyn ymlaen trwy Gynlluniau Nodweddion Gwarchodedig a pholisïau gwahanol a fydd yn helpu i sicrhau ein bod yn eu cyflawni.**

**Costau ac Arbedion**

**Wrth i Lywodraeth Cymru ystyried y camau gweithredu sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Amcanion a fydd yn rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 a'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, bydd dadansoddiadau cost ac arbedion yn cael eu rhoi gerbron Gweinidogion Cymru i'w hystyried a'u cymeradwyo. Adroddir ar y cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 dros ei gylch pedair blynedd.**

**Mecanwaith**

**Cam nesaf y cyflawni fydd ymgysylltu â Grwpiau mewnol Llywodraeth Cymru a Rhanddeiliaid allanol i nodi a ellir cytuno ar yr Amcanion a awgrymir (gall y cam ymgynghori awgrymu y gallai dulliau eraill fod yn fuddiol, felly nid ydym am**

**ragfarnu hyn ar y pwynt hwn) a'u cyflawni heb yr angen am ddeddfwriaeth ychwanegol.**

**O ystyried natur ddrafft yr Amcanion Arfaethedig, ni allwn gadarnhau ar hyn o bryd a fydd angen datblygu deddfwriaeth ychwanegol. Mae gan Lywodraeth Cymru ddigon o bwerau o dan y ddeddfwriaeth bresennol i gyflawni ei swyddogaethau presennol yn y maes hwn, ar yr amod bod yr Amcanion fel y disgrifir uchod.**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**Bydd creu Cymru sy’n fwy cyfartal, lle mae pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan, cyrraedd eu potensial llawn ac yn gallu cyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy llewyrchus ac arloesol.**

**Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn nodi'n fanwl sut mae ei Amcanion yn cael eu hategu gan Ddeddf Llesiant Cenhedlaeth y Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cefnogi’r ddeddf honno.**

Gyda'i gilydd, mae'r saith nod llesiant a’r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf wedi'u cynllunio i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Bydd ein Hamcanion Arfaethedig yn torri ar draws yr holl nodau llesiant, byddant yn arbennig yn cefnogi cynnydd tuag at y canlynol o leiaf:

- **Cymru sy’n fwy cyfartal** - cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
- **Cymru o gymunedau cydlynus** - cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Effaith Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn arbennig fydd sicrhau cynnwys cymunedau o bobl â Nodweddion Gwarchodedig wrth ddrafftio a gweithredu'r Cynllun, mewn ffordd a fydd yn canolbwyntio ar groestoriadedd a lleihau anghydraddoldeb.

**Hawliau Plant**

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae oedran yn un o'r Nodweddion Gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n hanfodol bod ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol yn cefnogi pobl o bob oedran.

Yn yr un modd, rhaid i'r ymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo hawliau dinasyddion Cymru gynnwys plant a phobl ifanc.

Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio CCUHP fel sail ar gyfer llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc, ac i sicrhau bod eu hawliau yn parhau i fod yn ganolog wrth hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru drwy sicrhau bod pob cymuned yng Nghymru yn cael cyfle i ymgynghori ar y Cynllun a'u bod yn rhan o'i ddulliau gweithredu.

## Y Rhaglen Lywodraethu

Mae cydraddoldeb, fel thema drawsbynciol yn cysylltu â'r Rhaglen Lywodraethu gyda'r ymrwymiadau canlynol wedi'u nodi fel a ganlyn:

### ***Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math***

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i:

- Gweithredu ac ariannu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.
- Edrych ar ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â bylchau cyflog ar sail rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a ffurfiau eraill ar wahaniaethu.
- Sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n cael arian cyhoeddus yn mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog.
- Treialu dull o ymdrin â'r Incwm Sylfaenol.
- Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd.
- Sicrhau bod ein system trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru'n fwy hygyrch i bobl anabl.
- Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau.

- Rhoi targedau ar waith ynghylch Cyllidebu ar sail Rhyw.
- Cryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref.

Mae pob un o'r ymrwymiadau uchod yn cael eu symud ymlaen yn eu rhinwedd eu hunain. Mae rhai Camau Gweithredu sy'n cefnogi'r ymrwymiadau uchod yn cael eu symud ymlaen trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol. Ni fydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn ailadrodd y Camau Gweithredu hyn, ond, wrth gwrs, bydd angen i'r Amcanion a awgrymir i'w hystyried sicrhau bod y Camau Gweithredu uchod yn rhan o'r pecyn cyflawni a hyrwyddir gan Weinidogion Cymru fel eu hymrwymiad i'r Etholwyr.

**Cydraddoldeb**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r egwyddorion a'r cyfarwyddyd a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau dilynol i Gymru. Gan fod y mater hwn yn ymwneud â darparu Amcanion Cydraddoldeb a'u datblygu'n barhaus, paratowyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (fel y'i atodir yn Atodiad B).

**Prawfesur Gwledig**

Bydd datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn cynnwys amcanion a fydd yn effeithio ar bob cymuned yng Nghymru, gan gynnwys cymunedau gwledig.

Gall fod effeithiau buddiol sylweddol neu gymedrol i'r unigolion hynny sydd â Nodweddion Gwarchodedig sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Bydd yr effeithiau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r mecanwaith cyflawni o fewn y Cynllun a byddant yn cael eu cynnwys yn yr amcanion arfaethedig i randdeiliaid eu hadolygu. Gall effeithiau gynnwys, er enghraifft, gwasanaethau gwell a mwy hygyrch, gwell cysylltiadau trafnidiaeth etc. yn eu hardaloedd. Gall hyn ond gwella bywiogrwydd, amrywiaeth a hygyrchedd cymunedau gwledig.

Pan fo polisi a chynlluniau'n cael eu datblygu y tu allan i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28, ond gan ystyried amcanion a chamau gweithredu'r cynllun, bydd llunwyr polisi yn cyflwyno Asesiad Prawfesur Gwledig clir i Weinidogion Cymru fel rhan o'u proses o benderfynu ar eu cyfeiriad polisi yn y dyfodol. O safbwynt cyflawni amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28, byddwn yn disgwyl arddangosiad clir o ymagwedd

groestoriadol at y cyflawni hyn. Am y rhesymau uchod, nid yw Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig llawn wedi'i gynnal ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28.

**Iechyd**

Bydd datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn cynnwys Amcanion Arfaethedig a fydd yn effeithio ar bob cymuned yng Nghymru, gan gynnwys trwy ddarparu gwasanaethau iechyd.

Gall fod effeithiau buddiol sylweddol neu gymedrol yn dod o gyflawni'r Amcanion Arfaethedig a awgrymir ar gyfer y Cynllun, er enghraifft gwell mynediad at wasanaethau iechyd gan gymunedau sy'n profi rhwystrau mynediad ar hyn o bryd a gwasanaethau ataliol/cymorth mwy hygyrch. Bydd penderfyniadau polisi unigol a fydd yn cael eu symud ymlaen sy'n cefnogi'r Amcanion Arfaethedig ar gyfer y Cynllun yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru fel rhan o'u proses o wneud penderfyniadau ar gyfeiriad polisi yn y dyfodol. O safbwynt cyflawni amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28, byddwn yn disgwyl arddangosiad clir o ymagwedd groestoriadol at gyflawni ac ystyriaeth o’r rhwystrau sy'n wynebu cymunedau o bobl â nodweddion gwarchodedig.

Wrth ddatblygu camau gweithredu polisi ategol, bydd yn ofynnol i Grwpiau Llywodraeth Cymru gynnal eu hasesiadau effaith eu hunain. Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod sefydliadau'r GIG yng Nghymru, y mae'n ofynnol iddynt ddatblygu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol eu hunain, wedi defnyddio cynlluniau Llywodraeth Cymru fel sail i'w cynlluniau eu hunain yn flaenorol. Disgwylir y bydd y duedd hon yn parhau, ond rydym hefyd yn ymwybodol bod partneriaid allanol yn rhydd i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain yn ôl anghenion eu rhanddeiliaid a’u defnyddwyr eu hunain.

Am y rheswm hwn, nid ydym wedi cynnal Asesiad o Effaith ar Iechyd.

**Preifatrwydd**

Pan fo Llywodraeth Cymru, ei phartneriaid a'i Rhanddeiliaid, yn gweithio i fwrw ymlaen â datblygu'r Amcanion Arfaethedig ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28, bydd angen asesiad o anghenion preifatrwydd unigolion a deddfwriaeth berthnasol sydd wedi'i chynllunio i ddiogelu preifatrwydd fel gofyniad safonol.

Yn ogystal, pan fo Grwpiau Llywodraeth Cymru yn datblygu camau gweithredu sy'n effeithio neu'n cefnogi'r rhai a nodwyd o fewn meysydd Nodweddion Gwarchodedig at ddibenion cynlluniau gweithredu a pholisïau cydraddoldeb gwahanol, bydd yn ofynnol i bob Grŵp asesu’r Effaith y camau gweithredu hynny ar Breifatrwydd.

Am y rheswm hwn, nid ydym wedi cynnal Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer yr Asesiad Effaith Integredig cychwynnol.

## 3.1 Llesiant diwylliannol

**3.1a Sut gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? (ar gyfer y Gymraeg gweler adran 3.2)**

Bydd yr Amcanion Arfaethedig (y mae’n bosibl iddynt newid o ganlyniad i barhau â dull cydweithredol o'u datblygu cyn ac ar ôl yr ymgynghoriad) a nodir uchod fel rhan o ddatblygiad Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn annog ac yn galluogi unigolion â Nodweddion Gwarchodedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, drwy brif ffrydio cydraddoldeb wrth lunio polisïau a sicrhau bod pobl o bob cymuned yng Nghymru yn rhan o fecanweithiau gweithredu polisi. Bydd hyn yn arwain at gynnwys lleisiau a syniadau pobl â Nodweddion Gwarchodedig i gyfrannu'n weithredol a chymryd rhan yn y gwaith o ddrafftio Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28.

Bydd camau gweithredu a nodir mewn Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol yn ysgogwyr newid ar lefelau lleol a chenedlaethol a byddant wedi'u hanelu at sicrhau cynhwysiant holl bobl Cymru. Er enghraifft, mae camau gweithredu i sicrhau trafnidiaeth haws a lleoliadau hygyrch, ynghyd â gwell mynediad i leoliadau twristiaeth a safleoedd treftadaeth a gwasanaethau cysylltiedig, wedi'u cynnwys mewn cynlluniau i gefnogi Pobl Anabl. Bydd y Camau Gweithredu hyn yn ennyn mwy o ymgysylltiad â bywyd diwylliannol Cymru ac yn ychwanegu ato drwy gynyddu amrywiaeth defnyddwyr.

**3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, trwy ddarparu cyfleoedd amgen)?**

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol a ragwelir yn uniongyrchol o ganlyniad i'r Amcanion Arfaethedig a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28.

Bydd disgwyl i bob Cynllun Nodweddion Gwarchodedig gael Camau Gweithredu a fydd yn cael eu cynnal mewn modd sy'n cynyddu hygyrchedd i gymunedau, unigolion a chymunedau buddiant. Bydd y Camau Gweithredu hyn yn parhau i fod o fewn cwmpas y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig, gydag ymyriadau Llywodraeth Cymru wedi'u manylu yn y cynlluniau hynny, yn gysylltiedig â gweithgarwch ehangach y Grŵp sy'n cefnogi bwriadau'r cynlluniau hynny a'r Amcanion Arfaethedig ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 hefyd.

## 3.2 Y Gymraeg

Er nad yw iaith yn Nodwedd Warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a bod amddiffyn y Gymraeg yn digwydd o dan ddeddfwriaeth ar wahân (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau cysylltiedig), cydnabuwyd ers tro bod agendâu polisi cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ategu ac yn hysbysu ei gilydd.

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol a ragwelir yn uniongyrchol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r Amcanion Arfaethedig a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Bydd unrhyw Camau Gweithredu i’w symud ymlaen yn parhau i fod o fewn cwmpas y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig, gydag ymyriadau Llywodraeth Cymru wedi'u manylu yn y cynlluniau hynny, yn gysylltiedig â gweithgarwch ehangach y Grŵp sy'n cefnogi bwriadau'r cynlluniau hynny.  Mae hyn yn cynnwys ymyriadau sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau y mae mynediad iddynt yn cael eu darparu yn y Gymraeg lle mae hyn yn briodol.

Bydd y Camau Gweithredu hyn yn ennyn ymgysylltiad â bywyd diwylliannol Cymru ac yn ychwanegu ato drwy o leiaf gynnal neu gynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg. Bydd hyn yn cyfrannu at un o dargedau craidd Strategaeth y Gymraeg: *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* i ddyblu'r defnydd o'r Gymraeg yn ddyddiol.

**Mae cwblhau’r asesiad o’r effaith ar y Gymraeg** Error! Reference source not found. **yn orfodol.**

Mae Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gwblhau.

## 4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnes a'r cyhoedd?**

Bydd yr Amcanion Arfaethedig (y mae'n bosibl iddynt newid o ganlyniad i barhau â dull cydweithredol o'u datblygu cyn ac ar ôl yr ymgynghoriad) a nodir uchod fel rhan o ddatblygiad Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn annog ac yn galluogi unigolion o fewn meysydd Nodweddion Gwarchodedig i ddatblygu ymagwedd fwy croestoriadol at eu gweithgareddau. Ni ddisgwylir i'r Amcanion arfaethedig eu hunain gael effaith negyddol sylweddol ar weithgareddau'r gymuned fusnes. O ganlyniad, disgrifir yr effaith fel "bach" am y rheswm hwn.

Bydd camau gweithredu a nodir mewn Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol yn ysgogwyr newid ar lefelau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, gellir disgwyl yn rhesymol i leoliadau hygyrch gynyddu nifer y cwsmeriaid a fydd yn gallu cael mynediad, gan felly gynyddu gwerthiannau.

Mae'n debygol y bydd cost uwch i fusnesau lle nad yw'r lleoliadau hyn yn hollol hygyrch ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Camau Gweithredu i wella mynediad a gwasanaethau cysylltiedig wedi'u cynnwys mewn cynlluniau i gefnogi pobl anabl (er nad yw'n hysbys a fydd cymorth ariannol ar gael at y diben hwn). Bydd y Camau Gweithredu hyn yn gwella darpariaeth gwasanaethau ac (o bosibl) yn cynyddu proffidioldeb i fusnesau Cymru (a'r rhai sy'n gweithredu yng Nghymru) yn ogystal ag effeithio ar ansawdd mynediad i gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau na fyddai fel arall yn gallu defnyddio'r gwasanaethau a gynigir mewn mangreoedd nad ydynt yn hygyrch.

## 4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?**

Mae gofyniad o hyd i sefydliadau'r Sector Cyhoeddus gydymffurfio â chyfraith Cydraddoldeb.

Cyflwynodd Deddf 2010 hefyd Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sydd â thri nod cyffredinol. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sydd heb nodwedd o'r fath
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sydd heb nodwedd o'r fath

Nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yw sicrhau bod y rhai sy'n ddarostyngedig iddi yn ystyried hyrwyddo cydraddoldeb wrth gyflawni eu busnes o ddydd i ddydd.

Mae tystiolaeth anecdotaidd sy'n dangos bod llawer o sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn cymryd arweiniad o ymagwedd Llywodraeth Cymru at y materion hyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw rwymedigaeth arnynt i ailadrodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac nid ydynt wedi'u gwahardd rhag datblygu eu dull eu hunain (yn wir, efallai y byddant yn ffafrio ymagwedd wedi'i theilwra).

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn argyhoeddedig bod gan yr Amcanion Arfaethedig a nodwyd yn gynharach yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn y potensial i ddod â buddion i sefydliadau eraill y Sector Cyhoeddus am y rhesymau yr ydym wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

Lle fydd Llywodraeth Cymru yn ariannu sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru (megis GIG Cymru neu sefydliadau Llywodraeth Leol, neu Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru), byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y Sector Cyhoeddus i gyflawni'r Amcanion Arfaethedig a'u hannog i ddatblygu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol eu hunain (gyda'u Camau Gweithredu eu hunain sy'n briodol yn lleol i gefnogi'r rhain) gan fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn lleol.

## 4.3 Y Trydydd Sector

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector a'r hyn maent yn ei wneud?**

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y trydydd sector o ran Amcanion Arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28, gan fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Pan fo'n briodol gwneud hynny, byddwn yn parhau i ddarparu cymorth ariannol lle mae'r Amcanion terfynol yn gysylltiedig â Chynlluniau Nodweddion Gwarchodedig a pholisïau cydraddoldeb gwahanol, sy'n gysylltiedig â gwasanaethau sydd naill ai'n cael eu darparu eisoes neu a fydd yn cael eu darparu gan y trydydd sector (a allai fod yn cael eu hariannu eisoes gan Lywodraeth Cymru). Bydd hyn yn ddarostyngedig i ofynion Cynllun y Trydydd Sector a'r egwyddor o Adennill Costau Llawn fel y nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.
**Yn ogystal, gan fod y canlyniad dymunol gorau yn ymwneud â'r trydydd sector ledled Cymru, ymgynghorir â'r trydydd sector a'i annog i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Amcanion terfynol drwy gydol y broses ymgynghori. Gofynnir i sefydliadau'r trydydd sector ystyried sut y gallant barhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol a'r Camau Gweithredu sydd wedi'u hymgorffori ynddynt, ochr yn ochr â'r holl bolisïau cydraddoldeb.**

## 4.4 Effaith ar Gyfiawnder

Bydd pob un o'r Amcanion Arfaethedig a nodir uchod a'r Camau Gweithredu sy'n cael eu symud ymlaen trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, ochr yn ochr â'r holl bolisïau cydraddoldeb, yn ystyried anghenion y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector fel rhan o'r gwaith o'u cyflawni, yn ogystal â dangos unrhyw effaith ar faterion cyfiawnder (lle mae materion o'r fath yn dod o fewn cwmpas a chylch gwaith cymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru).

Gofynnir i Weinidogion Cymru ddangos eu bod yng wneud penderfyniadau yn unol â'r Amcanion Arfaethedig a fydd yn sail i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 a'r Cynlluniau a'r Polisïau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, gydag Asesiadau Effaith Integredig perthnasol (a fydd yn cynnwys Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel elfen gydrannol) yn ofynnol i lywio pob penderfyniad.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid, yn gymesur â'u rolau, gan fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Er nad oes bwriad cyflwyno unrhyw ddyletswyddau newydd heblaw am y rhai sydd eisoes wedi'u deddfu yng Nghymru ar hyn o bryd, ni ellir diystyru hyn fel Cam Gweithredu posibl dros y pedair blynedd nesaf.

## 4.5 Effaith Economaidd-gymdeithasol

O ystyried y bydd anghenion unigolion, cymunedau a chymunedau buddiant yn cael eu hystyried fel rhan o gyflawniad pob un o'r Amcanion Arfaethedig a nodir uchod a'r Camau Gweithredu sy'n cael eu datblygu trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, ochr yn ochr â'r holl bolisïau cydraddoldeb, disgwylir y bydd effeithiau clir ar y meysydd hynny a grybwyllir uchod, yn bennaf trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig penodol a'r polisïau cydraddoldeb. Bydd unrhyw ymyriadau pellach neu waith ar ddatblygu Amcanion yn cael eu pennu trwy broses ymgynghori Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac wrth i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 agosáu at ei ffurf derfynol.

Gofynnir i Weinidogion Cymru ddangos sut maent wedi ystyried y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth iddynt wneud penderfyniadau yn unol â'r Amcanion Arfaethedig a fydd yn sail i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 a'r Cynlluniau a'r Polisïau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, gydag Asesiadau Effaith Integredig perthnasol (a fydd yn cynnwys Asesiad o Effeithiau Economaidd a'r Asesiad ar Gydraddoldeb fel elfennau cydrannol) yn ofynnol i lywio pob penderfyniad. Ailadroddir hyn yn Atodiad G.

## 5.1 Adnoddau Naturiol

Bydd yr Amcanion Arfaethedig yr awgrymir i'w cynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn ystyried anghenion yr amgylchedd fel rhan o'r gwaith o'u cyflawni.

Gofynnir i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ar gyflawni'r Amcanion Arfaethedig a'r Camau Gweithredu a nodir yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol a

pholisïau cydraddoldeb a fydd yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol cynnal Asesiadau Effaith Integredig perthnasol i lywio pob penderfyniad.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid i gyflawni Amcanion a Chamau Gweithredu Arfaethedig Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 sy'n gymesur â'u rolau, wrth fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar yr amgylchedd a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

**5.1a Sut bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol?**

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod.

**5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod.

## 5.2 Bioamrywiaeth

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod. Er mwyn dangos cydymffurfiaeth ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn Atodiad C isod.

## 5.3 Newid yn yr Hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd wedi'i nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i ni leihau ein hallyriadau trwy gamau gweithredu i ddatgarboneiddio ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy gynyddu ein gwytnwch. Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod. Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r materion hyn ac felly nid yw'r asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

## 5.3a Datgarboneiddio

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod. Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r materion hyn ac felly nid yw'r asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

## 5.3 b Ymaddasu

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod ac Atodiad 1 i Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r materion hyn ac felly nid yw'r asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

## 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Gweler trosolwg Adran 5.1.

Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r materion hyn ac felly nid yw'r asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

## 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod. Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r materion hyn ac felly nid yw'r asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

## 5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod.  Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r materion hyn ac felly nid yw'r asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

## Casgliad

### 7.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys wrth ei ddatblygu?

Rhaid i ni adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb a'n Amcanion bob pedair blynedd.

Cynhelir digwyddiadau ymgysylltu â sefydliadau cydraddoldeb, arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch yr Amcanion Cydraddoldeb Arfaethedig yn 2023. Yn dilyn hyn, cynhelir digwyddiadau cyhoeddus a bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dadansoddiad o ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r dystiolaeth a gynhwysir yn "A yw Cymru'n Decach? (2018)" a deunydd ymchwil perthnasol arall i baratoi set o Amcanion Cydraddoldeb Terfynol a fydd yn sail i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 y mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn cyfeirio ato.

**7.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn rhai cadarnhaol a negyddol?**

Rhagwelir y gallai fod effeithiau buddiol sylweddol neu gymedrol a allai ddeillio o gyflawni'r Amcanion arfaethedig ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28, a'r Camau Gweithredu a nodwyd i'w symud ymlaen o fewn Cynlluniau a Pholisïau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, er enghraifft gwasanaethau ataliol/cymorth gwell a mwy hygyrch.

Bydd penderfyniadau polisi unigol a fydd yn cael eu symud ymlaen ymhob un o’r Camau Gweithredu yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru fel rhan o'u proses o wneud penderfyniadau ar gyfeiriad polisi yn y dyfodol.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi o ganlyniad i'r Amcanion Arfaethedig i'w hawgrymu ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol rhwng 2024 a 2028.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA)**

Rhaid i weithredoedd Llywodraeth Cymru fod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y nodir yn adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA).

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 hwn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn symud egwyddorion y Confensiwn yn eu blaen o ran ei dyletswyddau cydraddoldeb parhaus.

Mae anabledd yn un o'r Nodweddion Gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n hanfodol bod ein Nodau ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cefnogi pobl anabl.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Mae oedran yn un o'r Nodweddion Gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n hanfodol bod ein Nodau ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cefnogi pobl o bob oedran.

Yn unol â hynny, bydd Amcanion Arfaethedig Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn parhau i atgyfnerthu ac adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r CCUHP fel sail ar gyfer llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc a sicrhau bod eu hawliau yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru. O ganlyniad, nid oes unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar Hawliau'r Plentyn wedi'u nodi.

**Y Gymraeg**

Er nad yw iaith yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a bod amddiffyn y Gymraeg yn digwydd o dan ddeddfwriaeth ar wahân (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau cysylltiedig), cydnabuwyd ers tro bod agendâu polisi cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ategu ac yn hysbysu ei gilydd.

Nid oes unrhyw effaith negyddol amlwg ar y Gymraeg wedi'i nodi. Bydd yr Amcanion Arfaethedig a nodir ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg; bydd cyflwyno'r Amcanion a'r Camau Gweithredu Arfaethedig a briodolir i Gynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol hefyd yn digwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg hefyd wedi'i gwblhau.

**Hyrwyddo Cyfleoedd Economaidd i Bawb (mynd i'r afael â thlodi)**

Bydd yr Amcanion Arfaethedig a nodir ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 – 28 a'r Camau Gweithredu a briodolir i Gynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol a pholisïau cydraddoldeb yn cefnogi'n uniongyrchol flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo gweithgarwch economaidd a mynd i'r afael â thlodi.

Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl â Nodweddion Gwarchodedig penodol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol amlwg wedi'u nodi.

**7.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig**:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu;**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd yr Amcanion Arfaethedig a osodwyd ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 a'r Camau Gweithredu a briodolir i Gynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy alluogi pobl i gyflawni eu potensial a thrwy hyrwyddo cyfle cyfartal wrth gael mynediad at wasanaethau.

Y nodau Llesiant sy'n arbennig o berthnasol yw Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru fwy cydlynus a Chymru fwy cyfartal.

Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2024-28 yn dangos y '5 ffordd o weithio' a nodir yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Fel rhan o'r ymgynghoriad, byddwn yn cydweithio â sefydliadau rhanddeiliaid ar yr Amcanion Arfaethedig ac yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar-lein cyhoeddedig, ar gyfer y gwaith sy'n parhau i ddatblygu fersiwn derfynol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Bydd hyn yn sicrhau bod gan bobl â Nodweddion Gwarchodedig yr un rhyddid, urddas, dewis a rheolaeth â dinasyddion eraill yn y gymuned.

**Y Rhaglen Lywodraethu: Ffyniant i Bawb**

Mae cydraddoldeb, fel thema drawsbynciol yn cysylltu â'r Rhaglen Lywodraethu gyda'r ymrwymiadau canlynol wedi'u nodi fel a ganlyn:

***Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math***

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i:

- Gweithredu ac ariannu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.
- Edrych ar ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â bylchau cyflog ar sail rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a ffurfiau eraill ar wahaniaethu.
- Sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n cael arian cyhoeddus yn mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog.
- Treialu dull o ymdrin â'r Incwm Sylfaenol.
- Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd.

- Sicrhau bod ein system trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru'n fwy hygyrch i bobl anabl.
- Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau.
- Rhoi targedau ar waith ynghylch Cyllidebu ar sail Rhyw.
- Cryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref.

Mae pob un o'r ymrwymiadau uchod yn cael eu symud ymlaen yn eu rhinwedd eu hunain. Mae rhai Camau Gweithredu sy'n cefnogi'r ymrwymiadau uchod yn cael eu symud ymlaen trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol. Ni fydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn ailadrodd y Camau Gweithredu hyn, ond, wrth gwrs, bydd angen i'r Amcanion arfaethedig i'w hystyried sicrhau bod y Camau Gweithredu uchod yn rhan o'r pecyn cyflawni a hyrwyddir gan Weinidogion Cymru fel eu hymrwymiad i'r Etholwyr.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol amlwg.

**7.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?**

Bydd yr Amcanion Arfaethedig (a'r Amcanion sydd i'w nodi yn fersiwn derfynol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28) ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn cael eu monitro drwy gysylltu Camau Gweithredu a briodolir i Gynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol a fydd eu hunain yn eiddo i wahanol Grwpiau polisi ledled Llywodraeth Cymru. Bydd y rhain yn cael eu monitro gan y swyddogion sy'n gweithio yn y meysydd polisi hynny.

Bydd adroddiad cryno blynyddol ar gynnydd yn erbyn yr Amcanion (a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol ar gyfer 2024-28) yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion Adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys datganiad o'r trefniadau a wnaed yn unol â'u dyletswyddau a gafodd effaith yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac asesiad o ba mor effeithiol oedd y trefniadau hynny wrth hyrwyddo cyfle cyfartal.

Yn ogystal, bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Terfynol 2024 yn amlinellu'r mecanweithiau angenrheidiol ar gyfer gwerthuso perfformiad yn erbyn yr Amcanion a gynhwysir ynddo.

**Asesiadau Effaith Llawn**

**A. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**

Mae oedran yn un o'r Nodweddion Gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n hanfodol bod ein Nodau ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cefnogi pobl o bob oedran.

Yn unol â hynny, bwriad yr Amcanion Arfaethedig yw atgyfnerthu ac adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r CCUHP fel sail ar gyfer llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc a sicrhau bod eu hawliau yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru. O ganlyniad, nid oes unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar Hawliau'r Plentyn wedi'u nodi.

**B. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

1. **Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Gan adeiladu ar y Ddeddf ei hun, gosododd Rheoliadau penodol i Gymru sylfaen bellach ar gyfer symud cydraddoldeb ymlaen yng Nghymru. O dan y Rheoliadau hyn, rhaid i gyrff rhestredig baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd.

Cyhoeddwyd Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-2020 ym mis Mawrth 2016.

Fel rhan o'i phroses adolygu, cynhaliodd Llywodraeth Cymru drafodaethau cychwynnol rhwng rhanddeiliaid, digwyddiadau cyhoeddus ac ymgynghoriad ffurfiol i lunio set o Nodau

ac Amcanion a Chamau Gweithredu Hirdymor (a ddangosir uchod) sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020-2024.

**Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru**

Ers cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-24, cyhoeddwyd sawl cynllun cydraddoldeb gwahanol sy'n canolbwyntio ar Nodweddion Gwarchodedig niferus, pob un â'i set ddiffiniedig ei hun o gamau gweithredu.

- Gweithredu ar anabledd: hawl i fyw'n annibynnol – fframwaith a chynllun gweithredu
- Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LHDTC+

Gan fod cynlluniau gwahanol yn bodoli ar gyfer nifer o'r Nodweddion Gwarchodedig, gyda pholisïau gwahanol sy'n cwmpasu'r holl Nodweddion Gwarchodedig, cynigir y bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-28 yn newid i ddull croestoriadol sy'n canolbwyntio mwy ar greu cysylltiadau ar draws polisïau, prif ffrydio cydraddoldeb a gweithredu polisi i fynd i'r afael â bylchau gweithredu systemig canfyddedig rhwng dylunio a chyflawni camau gweithredu (a dangos sut mae'r camau hyn yn effeithio ar unigolion).

Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb yn helpu i hoelio sylw ar yr holl faterion cydraddoldeb a hyrwyddo dealltwriaeth o sut mae pob un yn croestorri, gyda'r nod o ddarparu polisïau gwell a darparu gwasanaethau gwell, gan gynnwys dyrannu adnoddau.

Bydd Amcanion arfaethedig Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 hefyd yn parhau i gyflawni canlyniadau sy'n wirioneddol bwysig ac sy'n mynd at wraidd cydraddoldeb, gwrthwahaniaethu a chysylltiadau da rhwng pobl yng Nghymru.

Mae gan bob un o'r cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol (a restrir uchod) eu set eu hunain o Amcanion a Chamau Gweithredu lle mae'r dystiolaeth ddatblygiadol yn dweud wrthym fod gweithredu wedi'i dargedu wedi cael ei nodi. Mae ganddyn nhw Asesiadau Effaith Integredig ar wahân. Dadansoddwyd cyfoeth o dystiolaeth gan arweinwyr polisi, gan gynnwys yr hyn a ddarparwyd gan adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Cymru'n Decach? (2018).

Ar hyn o bryd cynigir, cyn ymgynghori, bod Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn cael eu cyfyngu i ddim mwy na thri. Byddai'r rhain yn gorwedd ochr yn ochr â'r cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig unigol a'r cynlluniau polisi penodol ar gyfer pob maes cydraddoldeb a gellir eu cymhwyso i fwy nag un maes Nodwedd Warchodedig. Y rhain yw:

**Prif Ffrydio Cydraddoldeb wrth Ddylunio a Darparu Ymyriadau a Datblygu Polisi Llywodraeth Cymru** – cyflwyno Prif Ffrydio Cydraddoldeb ar draws y sefydliad ar ddechrau'r broses datblygu polisi; a defnyddio Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb fel elfen ofynnol o Asesiad Effaith Integredig i'w chyhoeddi (Nid yw'n ofyniad ar hyn o bryd i gyhoeddi'r elfen Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb). Bydd dealltwriaeth ac ystyriaeth o gydraddoldeb ac Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cryfhau a'u gwneud yn fwy ystyrlon;

**Sicrhau Dull Croestoriadol o Ddatblygu Polisïau a'u Rhoi ar Waith**– Dylai'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ddarparu fframwaith i gefnogi llunwyr polisi i nodi themâu sy'n croestorri ar draws Nodweddion Gwarchodedig o fewn y cynlluniau gwahanol presennol. Bydd angen i brosesau datblygu polisi o fewn ac ar draws Grwpiau Llywodraeth Cymru ddangos sut mae ymyriadau yn cefnogi'r groestoriad hwn ar draws meysydd Nodwedd Warchodedig niferus; a

**Ymdrin â'r Bwlch rhwng Bwriad a Chyflawni** – Dangos gweithredu a chyflawni camau gweithredu: y gallu effeithiol i ddangos sut mae'r ymyriad yn cael ei adlewyrchu'n glir mewn prosesau a chamau gweithredu, a gwell mynediad, cyfranogiad, cynhwysiant ac ansawdd bywyd i'r defnyddiwr terfynol (dyma Ganlyniad arfaethedig pob un o'r tri Amcan).

Oni bai bod yr anghydraddoldebau hyn yn cael sylw nawr, gallai'r anfantais y mae gormod o bobl yng Nghymru yn ei wynebu gael ei wreiddio am genedlaethau i ddod.

**Ymgysylltu ac Ymgynghori**

**Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol ar ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28.**

Yn dilyn cymeradwyaeth i’r amcanion arfaethedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip, bydd ymgysylltu a dylunio yn dechrau gyda

grwpiau mewnol ac allanol fforymau Cydraddoldeb a arweinir gan Lywodraeth Cymru **ochr yn ochr** â rhanddeiliaid eraill.  Bydd hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu dogfen ymgynghori lawn sy'n nodi Amcanion Cydraddoldeb drafft Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 Llywodraeth Cymru.

Amcangyfrifir y bydd yr ymgynghoriad llawn hwn yn dechrau ym mis **Medi** 2023.  Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd y ddogfen ymgynghori yn cael ei chyhoeddi ar-lein.  Bydd adborth yn cael ei gasglu gan y cyhoedd ar-lein a thrwy weithdai a gynhelir ledled Cymru. Bydd y rhain yn cael eu harwain gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag aelodau o wahanol fforymau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, a bydd ystod eang o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd yn eu mynychu.

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad llawn yn cael eu dadansoddi a chyhoeddir adroddiad cryno fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 terfynol i'w gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Gweinidogion, i’w osod gerbron y Senedd, a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r camau wedi'u crynhoi isod:

1. Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip yn cytuno ar yr Amcanion drafft cychwynnol;
2. Gweithdy ar groestoriadedd a'i ddiffiniad o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda fforymau rhanddeiliaid;
3. Rhannu amcanion gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn ystod cyfnod o fis;
4. Derbyn sylwadau ar yr Amcanion, eu dadansoddi a'u hystyried gan y tîm polisi – bydd hyn yn ffurfio'r ddogfen ymgynghori Cynllun Cydraddoldeb Strategol lawn gyhoeddus gychwynnol;
5. Dogfen ymgynghori lawn i'w chyflwyno i randdeiliaid drwy ymgynghoriad 12 wythnos:
    a. Ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein o’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft cychwynnol; ac ar yr un pryd
    b. Gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru
6. Mae'r ymgynghoriad yn cau, mae’r ymatebion yn cael eu dadansoddi, a rhennir Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft terfynol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol;

7. Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol yn cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, yn cael ei osod gerbron y Senedd a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru;
8. Dadansoddiad o berfformiad yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol yn cael ei fesur a'i gyhoeddi'n flynyddol.

Bydd creu Cymru sy’n fwy cyfartal, lle mae pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan, cyrraedd eu potensial llawn ac yn gallu cyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy llewyrchus ac arloesol.

**Cofnod o Effaith yn ôl nodwedd warchodedig:**

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio ag asesu effeithiau ar gydraddoldeb.* Tynnwch sylw at unrhyw fylchau mewn tystiolaeth rydych chi wedi'u nodi ac esboniwch sut/os ydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hyn.

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut fyddwch chi'n lliniaru’r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Cadarnhaol | Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol (gyda'u Camau Gweithredu cysylltiedig eu hunain lle bo hynny'n briodol), polisïau cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Terfynol ar gyfer 2024-28 yn cael effaith gadarnhaol ar bobl o bob oedran. Yn benodol, (ond ymhlith eraill), | I'w nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer fersiwn derfynol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ôl yr ymgynghoriad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | sicrhau bod gan wasanaethau iechyd a chymdeithasol yr adnoddau i gefnogi unigolion o bob oedran, ond hefyd fel sydd wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu, trwy weithredu Hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig y cyfeirir atynt o'i mewn. | |
| Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd) | Cadarnhaol | Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol (gyda'u Camau Gweithredu cysylltiedig eu hunain lle bo hynny'n briodol), polisïau cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Terfynol ar gyfer 2024-28 yn cael effaith gadarnhaol ar Bobl Anabl.<br><br>*Gweithredu ar anabledd: hawl i fyw'n annibynnol – fframwaith a chynllun gweithredu* | I'w nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer fersiwn derfynol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ôl yr ymgynghoriad.<br><br>. |
| Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a | Cadarnhaol | Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol (gyda'u Camau | I'w nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer fersiwn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| phobl drawsryweddol) | | Gweithredu cysylltiedig eu hunain lle bo hynny'n briodol), polisïau cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Terfynol ar gyfer 2024-28 yn cael effaith gadarnhaol ar bersonau sy'n ymgymryd ag Ailbennu Rhywedd yng Nghymru, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, mynediad haws at wybodaeth a chyngor.<br>*Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru*<br>*Cynllun Gweithredu LHDTC+* | derfynol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ôl yr ymgynghoriad. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol | Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol (gyda'u Camau Gweithredu cysylltiedig eu hunain lle bo hynny'n briodol), polisïau cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Terfynol ar gyfer 2024-28 yn | I'w nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer fersiwn derfynol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ôl yr ymgynghoriad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cael effaith gadarnhaol ar Feichiogrwydd a Mamolaeth. Rhagwelir y bydd y cynigion sy'n hwyluso mynediad at ofal iechyd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl feichiog.<br><br>*Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru* | |
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr ac Ymfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Cadarnhaol | Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol (gyda'u Camau Gweithredu cysylltiedig eu hunain lle bo hynny'n briodol), polisïau cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Terfynol ar gyfer 2024-28 yn cael effaith gadarnhaol ar bobl waeth beth fo’u hil, eu hunaniaeth ddiwylliannol, neu eu statws ymfudwr.<br><br>*Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* | I'w nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer fersiwn derfynol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ôl yr ymgynghoriad. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Cadarnhaol | Bydd y buddion disgwyliedig ar gael i bawb yng Nghymru waeth beth fo'u crefydd, eu | I'w nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cred neu eu statws diffyg cred.<br><br>Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddatblygu Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig ar gyfer y maes hwn, fodd bynnag, efallai y bydd yr Ymgynghoriad a fydd yn gysylltiedig â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol arfaethedig 2024-28 yn argymell datblygu cynllun o'r fath. | gyfer fersiwn derfynol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ôl yr ymgynghoriad. |
| Rhyw / Rhywedd | Cadarnhaol | Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol (gyda'u Camau Gweithredu cysylltiedig eu hunain lle bo hynny'n briodol), polisïau cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Terfynol ar gyfer 2024-28 yn cael effaith gadarnhaol ar bersonau o bob Rhywedd.<br><br>*Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru* | I'w nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Fersiwn derfynol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ôl yr ymgynghoriad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Cadarnhaol | Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol (gyda'u Camau Gweithredu cysylltiedig eu hunain lle bo hynny'n briodol), polisïau cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Terfynol ar gyfer 2024-28 yn cael effaith gadarnhaol ar bersonau o bob cyfeiriadedd rhywiol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, mynediad haws at wybodaeth a chyngor.<br><br>*Cynllun Gweithredu LHDTC+* | I'w nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Fersiwn derfynol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ôl yr ymgynghoriad. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Cadarnhaol | Mae'r cynigion yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion personau sy'n cymryd rhan neu'n ymgymryd â phriodas neu bartneriaeth sifil yng Nghymru, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, mynediad haws at wybodaeth a chyngor.<br><br>Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddatblygu Cynlluniau Nodweddion | I'w nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Fersiwn derfynol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ôl yr ymgynghoriad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gwarchodedig ar gyfer y maes hwn, fodd bynnag, efallai y bydd yr Ymgynghoriad a fydd yn gysylltiedig â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol arfaethedig 2024-28 yn argymell datblygu cynllun o'r fath. | |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut fyddwch chi'n lliniaru effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Mae parch at hawliau dynol sylfaenol yn ogystal â chydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn holl waith Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd Amcanion Arfaethedig Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn cynnwys cyfeiriadau at gamau i'w cymryd i gryfhau a gwella Hawliau Dynol. | I'w nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Fersiwn derfynol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ôl yr ymgynghoriad. |

**Wrth gynnal yr asesiad effaith, pa dystiolaeth sydd wedi'i hystyried i ddeall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at brofiadau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

O ystyried y bydd anghenion unigolion, cymunedau a chymunedau buddiant yn cael eu hystyried fel rhan o gyflawniad pob un o'r Amcanion Arfaethedig a nodir uchod a'r Camau Gweithredu sy'n cael eu datblygu trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, ochr yn ochr â'r holl bolisïau cydraddoldeb, disgwylir y bydd effeithiau clir ar y meysydd hynny a grybwyllir uchod, yn bennaf trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig penodol a'r polisïau cydraddoldeb. Bydd unrhyw ymyriadau pellach neu waith ar ddatblygu Amcanion yn cael eu pennu trwy broses ymgynghori Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac wrth i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 agosáu at ei ffurf derfynol.

Gofynnir i Weinidogion Cymru ddangos sut maent wedi ystyried y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth iddynt wneud penderfyniadau yn unol â'r Amcanion Arfaethedig a fydd yn sail i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 a'r Cynlluniau a'r Polisïau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, gydag Asesiadau Effaith Integredig perthnasol (a fydd yn cynnwys Asesiad o Effeithiau Economaidd a’r Asesiad ar Gydraddoldeb fel elfennau cydrannol) yn ofynnol i lywio pob penderfyniad. Ailadroddir hyn yn Atodiad G.

## G: Asesiad Effaith y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

**Pa dystiolaeth sydd wedi'i hystyried i ddeall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at brofiadau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

O ystyried y bydd anghenion unigolion, cymunedau a chymunedau buddiant yn cael eu hystyried fel rhan o gyflawniad pob un o'r Amcanion Arfaethedig a nodir uchod a'r Camau Gweithredu sy'n cael eu datblygu trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, ochr yn ochr â'r holl bolisïau cydraddoldeb, disgwylir y bydd effeithiau clir ar y meysydd hynny a grybwyllir uchod, yn bennaf trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig penodol a'r polisïau cydraddoldeb. Bydd unrhyw ymyriadau pellach neu waith ar ddatblygu Amcanion yn cael eu pennu trwy broses ymgynghori Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac wrth i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 agosáu at ei ffurf derfynol.

Gofynnir i Weinidogion Cymru ddangos sut maent wedi ystyried y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth iddynt wneud penderfyniadau yn unol â'r Amcanion

Arfaethedig a fydd yn sail i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 a'r Cynlluniau a'r Polisïau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, gydag Asesiadau Effaith Integredig perthnasol (a fydd yn cynnwys Asesiad o Effeithiau Economaidd a’r Asesiad ar Gydraddoldeb fel elfennau cydrannol) yn ofynnol i lywio pob penderfyniad.